Heddlu Police
DYFED-POWYS

Adroddiad Iaith Blynyddol

2021 – 2022

Cyflwyniad a Chefndir

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg ers 30 Mawrth 2017. Fe'u cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fe'u crëwyd er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn ystod 2021-22, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i gofleidio'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle ac yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'n hollbwysig fod aelodau o'r cyhoedd yn medru cael mynediad at ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg bob dydd. Yr ydym yn cynorthwyo pob swyddog ac aelod staff cymaint ag y gallwn i sicrhau bod cymorth ar gael yn hawdd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n medru darparu gwasanaeth o safon uchel i bob cymuned yn ardal Dyfed-Powys.

Diben yr adroddiad blynyddol hwn yw monitro ein cydymffurfiaeth â'r safonau, hybu a hwyluso'r defnydd o wasanaethau Cymraeg, a hyrwyddo pa mor galed mae'r heddlu'n gweithio er mwyn sicrhau y glynir wrth y safonau. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Heddlu Dyfed-Powys ac ym mhob derbynfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Mae dwy iaith yn cael eu hadnabod yn gyfreithiol yng Nghymru, ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein darpariaeth gwasanaeth: **Dwy Iaith - Dau Ddewis!**

Cynnwys

1. Cyflawniadau……..... 4
2. Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg…… 7
3. Cyrsiau Cymraeg……..…….. 8
4. Swyddi Gwag……..……...……..... 9
5. Gallu Swyddogion a Staff o ran y Gymraeg ……..……..10
6. Cyrsiau Hyfforddi Drwy Gyfrwng y Gymraeg ……..…..11
7. Llunio Polisïau ……11
8. Anfodlonrwydd …...……..……12

1. Cyflawniadau

Mawrth Mawr

Ymgyrch Iaith Gymraeg Fewnol

Ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni, creasom ddigwyddiad ar-lein mewnol gyda'r Prif Gwnstabl, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a siaradwyr gwadd eraill. Diben y digwyddiad oedd rhoi cyfle i staff a swyddogion drafod unrhyw faterion o ran yr iaith Gymraeg a gwrando ar siaradwyr ysbrydoledig yn sôn am yr hyn mae'r Gymraeg yn golygu iddyn nhw. Roedd y digwyddiad hefyd yn lansio ymgyrch iaith fewnol fis o hyd â'r themâu canlynol bob wythnos:

- Safonau'r Gymraeg
- Cael hwyl gyda'r Gymraeg
- Gwersi Cymraeg
- Deall y rhwystrau a'u chwalu

Yn ogystal â'r digwyddiad ar-lein, crëwyd arolwg i staff a swyddogion ei gwblhau'n ddienw. Diben yr arolwg oedd deall pa gymorth yr oedd ei angen ar y gweithlu er mwyn gwella eu gallu yn y Gymraeg, i ddeall unrhyw rwystrau y gallent fod yn eu hwynebu er mwyn gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei roi i'n cymunedau.

Gohebiaeth Allanol

Postiwyd fideo drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn dathlu pum mlynedd ers cyflwyno'r safonau yn Heddlu Dyfed-Powys. Yr oedd yn canolbwyntio ar y ffordd yr ydym yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut mae'n ein helpu i gysylltu'n well â'n cymunedau:



Y Cynllun Mentora Iaith Gymraeg
Mae'r Cynllun Mentora Iaith Gymraeg wedi parhau eleni. Cynllun mewnol ydyw i gefnogi swyddogion a staff yr heddlu i fagu hyder wrth siarad Cymraeg. Mae'n paru siaradwr Cymraeg hyderus â dysgwr neu siaradwr llai hyderus. Maent yn cael sgyrsiau rheolaidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn helpu siaradwyr Cymraeg llai hyderus i deimlo'n fwy cyfforddus i ddefnyddio'r iaith.

Cefnogi ffyrdd amrywiol o ddysgu
Mae'r heddlu'n cydnabod bod pobl yn dysgu drwy ffyrdd gwahanol ac ar gyflymderau gwahanol, felly rydyn ni wedi trefnu ffyrdd gwahanol i helpu pobl ddysgu a chyrraedd y safon maen nhw'n dymuno yn y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys trefnu cyrsiau mewnol, galluogi staff a swyddogion i ddysgu drwy gyrsiau ar-lein, a chefnogi'r rhai sydd eisiau cymryd rhan mewn cyrsiau o fewn eu cymunedau. Y mae gennym dudalen fewnrwyd hawdd ei chyrraedd hefyd sy'n arwain pobl at y dewis gorau o ran dysgu iddyn nhw. Mae'r holl gyrsiau'n cael eu hariannu'n llawn gan yr heddlu ac mae dysgu'n cael ei wneud yn ystod amser gwaith.

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
Yn ystod digwyddiadau cynefino, mae staff a swyddogion newydd yn derbyn cyflwyniad i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Yn y cyflwyniad hwn, maen nhw'n cael hanes byr am ddiwylliant Cymru, llinell amser yr iaith Gymraeg, Safonau'r Gymraeg a gwybodaeth am yr adnoddau cymorth sydd ar gael. Hefyd, rhoddir ffigurau mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, a sut y byddwn yn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n preswylwyr drwy gyfathrebu yn eu dewis iaith, gan dynnu sylw at y ffaith mai gofyniad cyfreithiol yw hwn. Mae'r tabl isod yn dangos y cyflwyniadau a ddarparwyd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022:

Teitl y Digwyddiad	Dyddiad y Digwyddiad
Cyflwyniad ar gyfer Recriwtiaid Newydd	Mehefin 2021
Cyflwyniad Ymwybyddiaeth ar gyfer Swyddogion sy'n Trosglwyddo	Medi 2021
Cyflwyniad ar gyfer Recriwtiaid Newydd i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu	Medi 2021
Cyflwyniad ar gyfer Recriwtiaid Newydd	Hydref 2021
Cyflwyniad Ymwybyddiaeth ar gyfer Swyddogion sy'n Trosglwyddo	Mawrth 2022
Cyflwyniad ar gyfer Recriwtiaid Newydd	Mawrth 2022

Adnoddau er mwyn helpu swyddogion a staff

Anfonir adnoddau drwy e-bost ac fe'u cyflwynir adeg mewnbynnau er mwyn cynorthwyo o ran cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae'r adnoddau'n cynnwys llyfryn canllaw manwl er mwyn egluro'r Safonau ymhellach. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys disgrifiadau manwl o'r Safonau, ynghyd â thempledi defnyddiol er mwyn cynorthwyo staff a swyddogion â hysbysiadau 'allan o'r swyddfa', llofnodion e-bost ac ati. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod ein hadnodd 'rhestr wirio pen desg' ar gael i bawb. Mae'r adnodd bach defnyddiol hwn yn ganllaw sydyn sy'n cynnwys yr holl dempledi sydd eu hangen o ganlyniad i Safonau'r Gymraeg, manylion ynghylch sut i ddefnyddio'r Uned Gyfieithu, pethau i'w hystyried wrth drefnu cyfarfod, ateb galwad ffôn ac ati. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod gan bawb fathodyn "dwi'n dysgu/siarad Cymraeg" mewn man amlwg ar eu lifrai.

Mae'r holl adnoddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gael ar ddyfeisiau llaw swyddogion ac ar fewnrwyd yr heddlu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan yr holl swyddogion ac aelodau staff fynediad i'r adnoddau bob amser. Crëwyd adnodd ychwanegol yn arbennig ar gyfer y fewnrwyd, sef 'map geiriau'. Rhestr o eiriau, enwau a thermau, o deitlau rhengoedd i deitlau lleoliadau, a chwestiynau cyffredin, yw'r 'map geiriau'. Rydym hefyd wedi atodi ffeil sain i'r geiriau er mwyn helpu staff sydd ddim yn siarad Cymraeg i ymarfer ynganu'r geiriau.

Y Strategaeth Iaith

Mae'r Strategaeth Iaith yn ddogfen ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Nod y strategaeth yw sicrhau ein bod ni'n datblygu gweithlu sy'n cynrychioli'n

cymunedau drwy weithredoedd gwahanol. Mae'n gosod amserlen glir a chynllun inni fod yn atebol iddo.

Mae'r strategaeth yn cael ei monitro yn ystod cyfarfodydd 'Yr Iaith Ar Waith', sy'n cael eu cynnal ar sail chwarterol. Mae copi o'n Strategaeth Iaith ar gael i'w darllen ar wefan Heddlu Dyfed-Powys. Bydd strategaeth newydd yn cael ei chreu yn 2022.

Gwobrau'r Heddlu
Mae Seremoni Wobrwyo Heddlu Dyfed-Powys yn gyfle i ddathlu staff, swyddogion a gwirfoddolwyr yr heddlu. Cyflwynwyd gwobr 'Cymraeg yn y Gweithle' i Heidi Billington am ysbrydoli eraill, annog cydweithwyr yn gadarnhaol i ddefnyddio'r Gymraeg waeth pa beth bynnag yw eu lefel, a'u cefnogi i wneud hynny. Dechreuodd Heidi ei swydd fel Swyddog Ymholiadau Cyhoeddus ddechrau'r pandemig, gan olygu mai hi oedd yr unig un yn y gweithle weithiau. Serch hynny, roedd Heidi bob amser yn frwdfrydig, ac mae ei hangerdd dros yr iaith Gymraeg bob amser yn amlwg iawn. Nid yn unig y mae hi'n sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu dilyn, mae hi hefyd yn annog eraill i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg neu ddysgu'r iaith.

2. Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg

Mae'r heddlu wedi derbyn pob cyfle i fynd i ddigwyddiadau a drefnwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn gwella ein gwasanaethau.

Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
Er mwyn dathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ar 7 Rhagfyr 2021, trefnwyd ymgyrch allanol drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Yr oedd yn cynnwys fideo a oedd yn pwysleisio'n hadroddiad iaith ac yn atgoffa ein cymunedau ein bod ni'n cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog:

3. Cyrsiau Cymraeg

Yn 2017, cyhoeddodd yr heddlu ei Bolisi Gwersi Cymraeg newydd, sy'n nodi ymrwymiad yr heddlu i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg. Yn y polisi hwn, ceir manylion am y cymorth sydd ar gael i staff a swyddogion ar gyfer dysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau ieithyddol.

Mae'r heddlu wedi parhau i sicrhau bod gwersi Cymraeg yn cael eu cyflwyno a'u cefnogi. Yn 2021-2022, trefnwyd cwrs ar gyfer dechreuwyr i staff a swyddogion gwblhau ar-lein. Ariannwyd y cyrsiau hyn yn llawn a rhoddwyd amser i ddysgwyr gwblhau'r cwrs yn ystod oriau gwaith.

Yn anffodus, oherwydd y pandemig coronafeirws, nid oes cyrsiau Cymraeg wedi'u cynnal wyneb yn wyneb o fewn yr heddlu eleni, fodd bynnag, anogwyd staff a swyddogion i gymryd rhan mewn cyrsiau yn eu cymunedau. Yr ydym wrthi'n cyrchu gwersi wyneb yn wyneb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r tabl isod yn dangos y cyrsiau sydd wedi'u cwblhau gan staff a swyddogion eleni:

1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

Cyrsiau	Y nifer a oedd yn bresennol
Gwersi Cymunedol	2
Cwrs Ar-lein 10 awr i gyrraedd Lefel 1	161
Cwrs Lefel Mynediad 120 awr	27
Cyfanswm	**190**

4. Swyddi Gwag

Ers 1 Ebrill 2019, mae Cymraeg Lefel 1 yn ofynnol ar gyfer pob swydd, neu mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn barod i gyflawni hyn o fewn 6 mis ar ôl cael ei benodi.

1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021

Categori	Nifer y Swyddi Gwag
Cymraeg yn hanfodol	6
Roedd angen dysgu Cymraeg ar ôl cael eu penodi i'r swydd	187

Categori	Nifer y Swyddi Gwag
Cymraeg Lefel 1	187
Cymraeg Lefel 2	0
Cymraeg Lefel 3	6
Cymraeg Lefel 4	0
Cymraeg Lefel 5	0

5. Gallu Swyddogion a Staff yr Heddlu o ran y Gymraeg

Dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg

Mae'n bwysig fod gweithlu Heddlu Dyfed-Powys yn cynrychioli'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Fel heddlu, rydyn ni'n falch iawn o'n hunaniaeth Gymreig, ac eisiau annog staff a swyddogion i gefnogi'n holl breswylwyr. Credwn ei fod yn bwysig iawn bod ein swyddogion a'n staff yn medru dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg i'n preswylwyr ac i'w gilydd. Er mwyn sicrhau hyn, mae'r heddlu wedi ymrwymo i gael gweithlu lle mae pawb yn siarad Cymraeg hyd lefel 1 o leiaf.

I'n helpu i gyflawni hyn, ers mis Ebrill 2019, mae pob proffil rôl newydd ar gyfer staff a swyddogion yn dweud bod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gyfathrebu yn Gymraeg hyd lefel 1 o leiaf, neu fod yn barod i gyflawni hyn o fewn 6 mis ar ôl cael eu penodi. Mae hyn yn cael ei fonitro drwy gyfnod prawf unigolion a'u Proffil Datblygu ac Asesu, a rhoddir mwy o gymorth os oes angen.

Os nad yw unigolyn yn bodloni'r gofyniad, bydd yn symud drwy gamau perfformiad ffurfiol. Mae'r ffigurau presennol yn dangos bod nifer y swyddogion ac aelodau staff sydd heb unrhyw allu yn y Gymraeg ar ei isaf ers i'r safonau gael eu cyflwyno, ac ar hyn o bryd, mae'r nifer sydd â gallu Lefel 1-5 yn y Gymraeg yn uwch nag ydoedd cyn i'r gofyniad ddod i rym.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y ffigurau ar gyfer siarad a deall Cymraeg:

	Mai-16	Mai-17	Mai-18	Maw-19	Meh-19	Mai-20	Mai-21	Mai-22
Lefel 0	355	352	322	284	277	256	252	271
Lefel 1	449	537	557	603	600	630	683	771
Lefel 2	414	425	400	407	406	395	392	401
Lefel 3	204	233	236	242	240	250	259	250
Lefel 4	163	203	191	194	191	195	200	204
Lefel 5	271	276	253	241	240	244	249	256
Heb ddweud	122	285	112	88	92	94	92	86
Cyfanswm	1978	2311	2071	2059	2046	2064	2127	2239

Mae nifer y swyddogion ac aelodau staff sydd â Chymraeg lefel 0 ar ei isaf ers i'r safonau gael eu cyflwyno, ac mae lefel 1 wedi cynyddu o dros 300. Hefyd, bu cynnydd o ran lefelau 4 a 5. Rhagwelwn y bydd lefelau iaith yr heddlu'n parhau i gynyddu wrth i wersi Cymraeg barhau i gael eu cynnig.

Yr ydym dal yn annog gweithwyr i sicrhau bod eu gwybodaeth yn ddiweddar ac yn gofyn i swyddogion a staff ddiweddaru eu gallu o ran y Gymraeg drwy ohebiaeth fewnol ac wrth roi cyflwyniadau mewn perthynas â'r Gymraeg.

6. Cyrsiau Hyfforddi Drwy Gyfrwng y Gymraeg

Fel heddlu, rydym yn ymdrechu i gyflwyno mwy o gyrsiau hyfforddi ar gyfer ein staff a'n swyddogion drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r cyrsiau canlynol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a phan mae rhywun yn cael ei wahodd ar gyfer yr hyfforddiant, maent yn cael ei gynnig yn Gymraeg hefyd:

- Pecyn cynefino
- Hyfforddiant recriwtio, cyfweld a dethol rhestr fer (Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd)
- Mewnbwn hyfforddi Safonau Proffesiynol

Ni ofynnwyd am yr un o'r cyrsiau uchod drwy gyfrwng y Gymraeg eleni, ond ein nod yw hyrwyddo'r cyrsiau sydd ar gael gennym drwy gyfrwng y Gymraeg yn ehangach fel bod mwy o bobl yn cymryd rhan yn y cyrsiau Cymraeg. Yn y dyfodol, gobeithiwn gynyddu nifer y cyrsiau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg fel bod modd i'n staff a'n swyddogion gwblhau cymaint o'u hyfforddiant ag sy'n bosibl yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.

7. Llunio Polisïau

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw Bolisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd a gyflawnir gan yr heddlu er mwyn sicrhau ein bod ni'n bodloni gofynion Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac nad ydynt yn effeithio'n andwyol neu'n

negyddol ar unrhyw grwpiau neu unigolion penodol sy'n cael eu gwarchod gan Ddeddf Gydraddoldeb 2010, gan asesu'r effaith bosibl ar unigolion.

Yr ydym wedi cynnwys yr iaith Gymraeg o fewn yr asesiad hwn er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried bob amser. Mae'r cwestiwn yn gofyn:

'Yn unol â Safonau'r Gymraeg, rhaid ystyried y canlynol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg hefyd:

Rhowch dystiolaeth o'r ffordd yr ydych wedi ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar -

(a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dangoswch dystiolaeth o'r ffordd yr ydych wedi ystyried sut na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effaith andwyol, neu sut y byddai'n cael llai o effaith andwyol, ar —

(a) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dangoswch dystiolaeth o'r ffordd yr ydych wedi ystyried sut na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effaith andwyol, neu sut y byddai'n cael llai o effaith andwyol, ar —

(a) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

8. Anfodlonrwydd

Isod, ceir cofnod o'r unig gŵyn yr ydym wedi derbyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â'r Gymraeg:

Cwyn:

Ym mis Gorffennaf 2021, gwnaed cwyn drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cyflwynodd yr achwynydd gwynion ei fod heb dderbyn y gwasanaeth Cymraeg yr oedd hawl ganddo iddo ar 3 achlysur gwahanol:

- Yn ystod yr achlysur cyntaf, roedd yr achwynydd wedi galw Heddlu Dyfed-Powys ac wedi dewis yr opsiwn Cymraeg, ond atebwyd yr alwad yn Saesneg. Parhaodd yn Gymraeg ar ôl i'r achwynydd ofyn am hyn.

- Yn ystod yr ail achlysur, galwodd y galwr Heddlu Dyfed-Powys a dewisodd yr opsiwn Cymraeg, ond atebwyd yr alwad yn Saesneg. Eto, parhaodd y sgwrs yn Gymraeg unwaith i'r achwynydd siarad Cymraeg.

- Yn ystod y trydydd achlysur, cysylltodd yr heddlu â'r achwynydd. Ni chynigiwyd gwasanaeth Cymraeg iddo gan nad oedd neb ar gael i siarad ag ef yn Gymraeg, ond cynigiwyd ei alw yn ôl pan oedd swyddog a oedd yn siarad Cymraeg ar gael.

Ymchwiliad Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg:

Yn dilyn ymchwiliad Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i'r mater hwn, canfu nad oedd Heddlu Dyfed-Powys wedi cydymffurfio â safonau 8 a 21 o Safonau'r Gymraeg a rhoddwyd camau gweithredu pellach iddynt. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau i ddangos tystiolaeth eu bod yn bodloni gofynion penderfyniad terfynol Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Gwybodaeth Bellach

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch ynglŷn â'r Adroddiad Iaith Blynyddol, anfonwch e-bost at yriaithgymraeg@dyfed-powys.police.uk